PRIS DWY GEINIOG.

# MARWNAD

I'R DIWEDDAR

# MR. JOHN ARNOLD, Y.H.,

—— CASTELLNEDD; ——

BUDDUGOL YN

## Eisteddfod Gwyn Hall, Castellnedd,

**RHAG. 26ain, 1895.**

---

### BEIRNIADAETH DYFED AR FARWNAD "GLYN MOAB."

"Rhagorol eto—yn felus, yn dyner, ac yn ddiymchwydd. Y mae mor naturiol a hiraeth. Nid yw y bardd yn manylu ar bob peth yn hanes y gwrthddrych; a thrwy hyny, y mae wedi ysgoi sychder di-addurn cronicl yr hanesydd. Camgymeriad mawr yw ceisio gwthio pobpeth yn hanes dyn, i fewn i'w farwnad. Gwaith y bywgraphydd yw hyny, a gall wneyd y gwaith heb i neb ei ddrwgdybio fod ysbrydoliaeth bardd wedi cyffwrdd â'i fin. Cerdd ragorol yw hon. Y mae y bardd fel dyn o'r 'Glyn,' yn edrych drwy gwmwl o hiraeth ar fywyd y gwrthddrych; ac y mae'r holl gerdd yn llawn tynerwch a'r tlysni mwyaf cydweddol â marwnad. Nid oes un amheuaeth nad yw '*Cyfaill Calon iddo*' a '*Glyn Moab*' yn rhagori ar yr oll yn y gystadleuaeth; ond credwyf, er hyny, fod yr olaf yn rhagori ar y cwbl yn nyfnder teimlad a chyflawnder tlysni ei gân. Gan hyny, gwobrwyer '*Glyn Moab.*'

"DYFED."

---

**Briton Ferry:**

D. L. JONES (CYNALAW), ARGRAFFYDD.

160 562549 8

# —MARWNAD—

I'R DIWEDDAR

# MR. JOHN ARNOLD,

## CASTELLNEDD.

OBRY'n niwloedd "cysgod angau" collir golwg ar y byd,
Cyfaill ar ol cyfaill deithia ar hyd lwybrau'r glyn o hyd;
Yn aflonydd, yn awyddus tynu byth mae'r byd a ddaw—
Ac er dal yr ochr yma, cryfach yw yr ochr draw.

Aeth John Arnold obry i'r dyffryn o dan wrid rhinweddau claer—
Megys hwyrddydd haf yn suddo idd ei fedd mewn amdo aur.

Pan mae'r haul yn myn'd i wely y Gorllewin, y mae ef
Yn brydferthach y pryd hwnw nag un adeg yn y nef.
Pan mae'r rhosyn hardd yn marw gyda gwelwder ar ei rudd,
Perarogla'n fwy'r pryd hwnw nag un adeg yn ei ddydd.
Felly hwyrddydd oes John Arnold—acw yn ngorllewin bedd—
Tlysni bywyd glân, a chyfan, yno nefolelddiai'i wedd.
Fel y rhosyn yn marwolaeth, pan y gwywodd angau'i wawr,
Trodd ei oes i berarogli'n iachach nag erioed yn awr.

Hawdd ei gofio, hoff yw syllu'n ol hyd ffordd ei fywyd gwyn,—
Megys llinell o oleuni hono sydd yn myn'd i'r glyn.
Yn y claer oleuni hwnw ei weithredoedd y'nt yn llu—
Mewn anrhydedd yn cyfeirio ar ei ol i'r dyffryn du.
Megys enfys o rinweddau mae ei fywyd gloew'i wedd,
Un pen, draw yn moreu dyddiau, a'r pen arall yn y bedd.

O! mor anhawdd sylweddoli'r ffaith o'i farw—blentyn nef,—
Er i ni'n y glyn ei golli, byth o'n blaen mae'i ddelw ef.
Nid yw'n ngallu "cysgod angau" i guddio "ffyddlawn was" i'w
Dduw
Er ei *farw!* heddyw erys fel o'n blaen—John Arnold *byw.*
Peidio'i garu oedd rhy anhawdd, gysegredig blentyn hedd,—
Ond mae'n fil mwy anhawdd peidio'i garu heddyw yn y bedd.

11/50

WG 135.5. 304

Nid dylanwad *cyfoeth* daear geidw'i hanes o dan fri,—
Nid dylifiad *gwaed* arbenig geidw'i fywyd gyda ni,—
Na ! cymeriad pur, yn gwisgo llewyrch nefol gwlad yr hedd,—
I gymeriad gwyn fel hwnw ni agorwyd yr un bedd.

Iddo ef yn moreu dyddiau, er meddianu dysg yn 'stor,
Ni wnaeth cyfoeth â'i allweddau aur, agoryd yr un ddor ;
Galwad gafodd ef yn foreu i ddysgu brwydro brwydrau oes,—
Yno JOHN mewn bri ymdrechodd,—yno cariodd lawer croes.

*Ymdrech* byw, a *phenderfyniad*, megys engyl disglaer Nêr
Fu'n prydferthu nef ei fywyd gydag anniflanol sêr.
Carent hwy â blodau wisgo llwybr ei oes mewn bri di-ail,
Fel y cara'r Gwanwyn wisgo daear werdd mewn rhos a dail.
*Penderfyniad* pur diflino fu'n ei gwmni drwy ei oes—
*Ymdrech* cadarn, megys Simon, gariodd iddo lawer croes.

Taro'i ysgwydd wnai yn ffyddlon o dan " arch " pob mudiad da ;
Hyfryd gweithiai ei ddylanwad fel yr haul ar ffrwythau'r ha'.
Einioes lawn o ddefnyddioldeb—einioes mewn goleuni'n troi—
Feddai JOHN, a theimlid hyny pan i'r bywyd y gwnaeth ffoi.

Er cyfeirio'r oes i lwyddiant, rhoddai'n wastad nerth ei law—
Gwnai ddaioni heb wahaniaeth, fel disgyna'r gawod wlaw.

Fel y tonau fythol lamant tua'r traeth yn wyn o hyd,
Ei weithredoedd ef gyfeiriant ar ei ol i'r nef i gyd.
Dan gafodydd gras blagurai maes ei enaid ar y llawr,
Ef ffrwythlonodd, ef aeddfedodd, fel dan wenau'r Iesu mawr.

Tebyg i ti sylwi ganwaith ar flodeuog rewllyd nos—
Gwelaist yno'n mhlith y lluaws fendigedig seren dlos,
Fel yn gado'i sedd a syrthio i'r tragwyddol wagle du,—
Gyda llinell arian loew yn ei dwyfol ddilyn hi.
Felly'r aeth JOHN ARNOLD obry—llinell glir, anianaidd wedd—
Wnaeth ei ddilyn mewn gogoniant nes ei cholli yn y bedd.

Cofio ydwyt pan yn aros ar y traeth ar lawer pryd,
Gwel'd y " Nawfed dòn " yn llamu yn fwy pell na'r lleill i gyd.
Felly marw'n hoff JOHN ARNOLD ; hiraeth fel y " Nawfed dòn "
Wnaeth ymruthro 'mlaen yn nerthol i derfysgu hedd ein bron.

Byth ddidderbynwyneb ydoedd—d'wedai'r gwir o flaen y byd,—
Ni lychwynodd wenwisg bywyd gan lwch gweniaeth unrhyw bryd.
Nis gallasai rhagrith ffugiol ar ei enaid roddi'i throed—
Yn ei hol â " dalen " siomiant elai hono yn ddioed.

CARDIFF
X205262626
21 OCT 1935

Tyllau sy'n y gwisgoedd goreu a fedd cyfoeth rhagrith ddu,—
Ond JOHN gafodd wisg o rinwedd, cyfan, glân y Wynfa fry.
Suddodd ef i'w feddrod obry'n
Llewyrch parch ac "enw da"—
Fel yr haul yn myn'd i'w wely
Yn ngogoniant hwyrddydd ha'.

Mor sefydlog byddai beunydd,—troi mewn awel ni wnai ef,—
Drwy ystormydd oes, JOHN ARNOLD safodd fel cedrwydden gref.
Cyfnewidiai yr awelon i bob pwynt o dan y ne'—
Ef arosai drwy'r blynyddoedd a'i gyfeiriad i'r un lle.
Cyfaill gwir oedd—lon'd yr enw—byth ni chefnai ar un dyn;
Pan newidiai'r amgylchiadau, byddai ef o hyd yr un.
Gwelir llawer blodyn hawddgar sydd yn gwisgo mantell dlos,
Drwy y *dydd* yn gwenu'n siriol, ond diflana gyda'r *nos*;—
Ond gwnai blodau oes JOHN ARNOLD wenu nos a dydd yr un,
Fel pe'n aros o dan wenau Haul Cyfiawnder Gwyn ei Hun.

Plentyn cerdd y bu drwy'i fywyd—yn angerddol carai hi;—
Hon oedd yn naturiol ynddo—gwelai ynddi fythol fri.
Canu godai byth o'i enaid,—dyma'i nefol anwyl waith—
Fel yr afon lân yn canu tua'r cefnfor ar ei thaith.
Maesydd gwyrddion oes JOHN ARNOLD ynt yn llawn o flodau cerdd—
Cân a swyn oedd drwyddynt megys boreu Mai mewn coedwig werdd.
Gydag ef yr oedd cerddoriaeth draw yn tyfu fel o'r cryd,
Fel pe iddo'n etifeddiaeth pan yn dechreu'i daith drwy'r byd.
Dod i lawr hyd lwybr ei dadau wnaeth cerddoriaeth fel at JOHN;—
Rhoddodd yntau iddi'n gyson gysegr sancteiddiola'i fron.
Aelwyd anwyl ei rieni ydoedd aelwyd lawn o gân,
Ac ar hono clywai beunydd swn emynau Cymru lân.
Parchai gerdd hyd aig ei galon, hithau iddo'n ol rodd barch—
Parch a bery drwy niwl angau, er ei golli yn ei arch.

Goleuedig, ddoeth arweinydd fu i lu yr ysgol gân,
Llafur JOHN a'r ysgol hono oeddent fyth yn ddiwahan.
Gwersi hono sydd yn aros heddyw o dan fythol hedd—
Fel dan nef-arddeliad obry'n nyfnder calon Castellnedd.
Er ei golli ef mor sydyn yn nigyffro niwl y glyn,
Ei holl wersi 'nawr sy'n glasu'n maes ei goffadwriaeth gwyn.
Ef a'i gerddgar lu ddringasant fryniau llawryf lawer gwaith,—
Congcwest ar ol congcwest welwyd yn addurno eu holl daith.
Y *cadeiriau* a'r *aur-dlysau*, luoedd heirdd a gafodd ef,
Sy'n addurno ei holl hanes, fel y sêr yn nglas y nef.

Mae ei enw'n nghwlwm gyda "Chôr Undebol" Castellnedd,
Ac mae'r ddau yn hoenus heddyw ac yn ieuaingc uwch y bedd.
Yn yr "Ysgol Gân" y byddai'r lluoedd beunydd yn cyd-gwrdd,—
Nis gallasai "ffiniau enwad" gadw'r un o'r rhai'n i ffwrdd.
Ei *hynawsedd* pur a'i *allu* dynai'r dyrfa byth yn nghyd,
Ac i fryniau claer anrhydedd yr arweiniai hwynt o hyd.

Canu'r Cysegr bendigedig oedd ei benaf ganu ef—
Credai fod y canu hwnw fel yn nes i ganu'r Nef.
Yno gweithiodd yn egniol,—teimlai hyny byth yn fraint;
'Roedd ei enaid mawr yn nofio fel yn môr caniadau'r saint.
Carai hoff emynau Seion gyda chariad nerthol byw,—
'Roedd ei nefoedd wedi dechreu yma'n nghanu Cysegr Duw.
Carai yn angerddol Salmau ac emynau Gwalia lân;—
Ei holl natur tra'n eu canu dwymnai fel wrth nefol dân.
Ei ddylanwad erys heddyw'n nghanu cysegr Maesyrhaf,
A'i ymdrechion 'nawr flodeuant ar ei fedd mewn gwanwyn braf.
"Tonau ARNOLD" genir heddyw'n gysegredig yn y lle,
Tra mae'r awdwr wedi'i godi i ganu purach yn y Ne'.

Llafur JOHN dros ganu'r cysegr, a'i holl waith dros deulu'r ffydd,
Yn berarogl yn awelon nef ei goffadwriaeth fydd.

Carai'i wlad yn anwyl, anwyl; carai'i sefydliadau hi;
Ffyddlawn iddynt bu drwy'i ddyddiau, teimlai ynddynt fythol fri.
Cyfaill anwyl i'r Eisteddfod a fu JOHN drwy'i fywyd glân;
Llosgai'i natur dros anrhydedd prif-wyl anwyl Gwlad y Gân.
Ei ffyddlondeb diball iddi, a'i ymdrechion drosti hi,
A flagura mewn prydferthwch obry'n nghof blynyddau lu.

Castellnedd erioed ni chafodd fab teilyngach nag efe;
Nid aeth un erioed oedd ddyfnach yn ei chalon hi i'r Ne'.
Detholedig blentyn ganddi yn mhob safle ydoedd ef;
Cafodd ef le cysegredig drwy'r blynyddau'n mron y dref.
Rhoddodd arno ef yn dawel bob anrhydedd fedrodd hi;
Ei hoff orchwyl byw, dymunol, oedd ei wisgo ef mewn bri.
Rhodd y dref ar ei ysgwyddau'r *faerol wisg* a'i hurddas mawr;
Gwenu arno wnelai beunydd, wenau cariad teg ei wawr.
Credai'n nhalent bur ei phlentyn, ac anwylai ef o hyd,
Gyda bri yn ei chynghorau, sedd oedd iddo ef bob pryd.
Gwnaeth ei barchu drwy'r blynyddoedd—nis gallasai wneuthur mwy,—
Wylodd wed'yn ar ei feddrod gyda chalon fel yn ddwy.

Ymddiriedaeth roddodd arno,—cadwodd yntau'r oll yn bur,—
Ffyddlawn bu i'w gyfrifoldeb ;—ef fu byw'n ngoleuni'r Gwir.
Gonest fu i'w holl safleoedd, o'r Dilledydd parchus iawn
Hyd i sedd yr Ystus, rhoddodd ar yr oll ogoniant llawn.

Welaist ti'r blodeuyn hwnw sylla byth i wyneb haul,
Gan ei ddilyn yn ddiflino ac ymloni rhwng ei ddail ?
Felly gwnai JOHN ARNOLD edrych o bob man i wyneb Duw ;
Tra'n yr anial bu'n pabellu, 'roedd yn ngolwg nef yn byw.

Cymdeithaswr gwreiddiol ydoedd,—byw yn mysg y byd a wnai ;
Gwreiddiai'n naear werdd cymdeithas, a blodeuai megys Mai.
Gwir ddyngarwr oedd bob amser,—hawliai'r enw hwnw'n rhwydd—
Llawer un mewn cyfyngderau ddaeth i wenu yn ei wydd.
Rhoddodd lawer gwir " elusen " heb " udganu " am y rhodd—
Ei holl roddion distaw darddent lawr mewn calon wrth ei bodd.

Ef gyfeiriodd yn y boreu gwmpawd aur ei brydferth oes,
At y rhai sy'n treulio'u dyddiau'n nghysgod Iesu ar y Groes.
Tyfai a ffrwythlona'n gyson mewn prydferthwch yn eu plith,
Megys cangen yn ffrwythloni dan ireidd-dra " Hermon wlith."

O, mor ddedwydd y gwnaem deimlo yn ei gwmni ar bob pryd—
Meddai ef hynawsedd yspryd ddaliai bwysau arall fyd :
Y *peth hwnw* wnai ei gartref yn ei fron sy'n trechu dyn,
Ac sy'n gwneuthur i'w gydnabod idd ei barchu bob yr un.
Ei holl eiriau treiddgar hynod ffrwyth o'u holau wnai barhau,
Fel dilyna ffrwythau'r gawod wlad yn naear dyner Mai.

Tynu mae'r wreichionen fynu, tyna'r afon tua'r môr—
Felly JOHN a dynai beunydd o bob man i deml Iôr.
" Ysgol Sul," y " Cyrddau Gweddi," oe'nt ei nefol fanau ef,—
Ynddynt yr ymdrwsiai'i enaid byth i ddal goleuni'r nef.
Flaenor anwyl Eglwys Iesu—goleuedig, gweithgar, byw,—
Fel pe'i galon wedi'i chyffwrdd at y gorchwyl gan fys Duw.
Gwresog beunydd ei deimladau,—mewn cyfeillach teimlem ef
Fel yn tynu'r nef i'r ddaear yn ei yspryd—yn ei lef.
Os yw'r swn yn " mrig y morwydd " weithiau 'nawr yn d'od i'w hynt,
Yn ei gwmni ef cyfarwydd oeddem fel a swn y gwynt.
Addfwyn a charedig ydoedd,—gostyngedig gyfaill mwyn,—
Ar ei ol aeth y gyfeillach yn gyfeillach " adrodd cwyn ;"
Pwys ei ostyngeiddrwydd bywiol a'i addolgar galon fawr
Wnaeth ei gadw drwy'r blynyddoedd fel wrth droed y Groes i lawr.

Fuost ti erioed yn sylwi mewn daeargell bruddaidd, ddu,
Ar lysieuyn hardd yn tyfu ?—Yn y t'w'llwch gwisgai fri.
Sylwaist ti ar hwnw yno'n tynu fel o'i wely gro,
I gofleidio y goleuni yn yr agen yn y to ?
Felly John a dynai beunydd o'r anialwch tua'r Ne'—
Nod urddasol feddai'n wastad—tynai o bob pruddaidd le.
At oleuni y cyfeiriodd holl gorsenau'i fywyd claer—
A'r rhai hyny gan oleuni baentiwyd yn gorsenau aur.

Perarogli mewn tawelwch wnai, i weithredoedd lawer pryd,
Fel rhosynau mewn anialwch yn persawrn o ŵydd y byd.
Yn mhob 'storm gadd ef, persawredd gaed o'i amgylch ar bob llaw—
Blod'yn oedd â'i berarogledd fwyaf yn y gawod wlaw.

Ei ymdrechion dros ddaioni oe'nt effeithiol iawn i gyd,
Fel disgyna y goleuni i fywhau a phaentio'r byd.
Byth ddisgynai ar ei ardal fywiol wlith o'i grefydd dlos,
Fel disgyna y defnynau ar y ddaear yn y nos.

Gristion gloew, syml, naturiol, caed ei fywyd yn ei waith,
Nef arddeliad a goronai ei weithredoedd a'i bur iaith.
Ei gynghorion mwyn, caredig, a'i weddiau taerion ef,
Erbyn hyn y'nt yn goronau yn ei feddiant yn y nef,
Gweithio'n ddyfal yn y cysegr, rhodio'n llwybrau'r dwyfol Air,
Hawliodd iddo'r nef i agor—roddodd iddo delyn aur.

Mor gartrefol byddai beunydd pan â phlant yr Ior yn cwrdd,
Teimlai yn eu plith bob amser megys plant wrth yr un bwrdd.
Pell ddieithriwch ni wnai lechu yn ei fynwes wen, ddi-frad—
Teimlai beunydd fod eu cwmni'n gwmni meibion i'r un Tad.

Er mai obry yn nhir anghof mae ei " lety llwch " yn awr ;
Byw wyrddlesni gwanwyn adgof geidw'i enw'n hardd ei wawr.
Byth ffyddlondeb dros rinweddau hardda nef ei fywyd ef,
Fel gwna lliwiau anian ffurfio'n enfys draw ar fron y nef.

Plentyn heddwch fu drwy 'i fywyd, byth ni charai dynu'n groes ;
Ar Foriah gwneud daioni yr aberthodd ef ei oes.
Ei arwyddair ydoedd *heddwch,* ond nid heddwch *llwfrddyn* gwael
Sy'n cofleidio pob llonyddwch, doed o rywle ond ei gael :
Na ! nid felly, John a'i heddwch welid byth mewn bri di-ail,
Ac anrhydedd digyfnewid iddo yn safadwy sail.

Allor Duw fu yn disgleirio'n nheml ei fywyd ef yn wyn,
Ac yn lân o wyddfod hono parod oedd i daith y glyn.
Gweled oedd yn glir, ni gredem, wrth yr allor drwy ei ddydd,
Sanctaidd wrid Sechina'r nefoedd fel ar drugareddfa ffydd.

Ffyddlawn bu i'w arg'oeddiadau, byw ei gredo wnaeth yn llwyr,
Ni ddiffygiodd nes machludodd haul ei fywyd yn yr hwyr.

Lluoedd heddyw sy'n siomedig, yn nglyn hiraeth du o hyd,
Maent fel colomenod pruddaidd yn cwynfanu yn y byd.

Tra'n heneddio, lledu'n lanach welai blodau'i fywyd ef,
Fel pe dan awelon gwanwyn agos, newydd yn y nef.
Bywyd gwyn JOHN ARNOLD welem ni'n cyfateb nefoedd wen—
Crefydd wedi gwynu'i galon—y blynyddau'n gwynu'i ben,
Anhawdd gwel'd y *du*'n ei hanes—yn y glyn nid *du* ei fedd,
Y mae beddrod Iesu wedi rhoddi i hwnw "newydd wedd."

Oddiwrth ei "waith" yn sydyn cefnu wnaeth y Cristion byw,
Gyda'i "wobr" y gorphwysodd yn "ngorphwysfa" pobl Dduw.

Cofir ei nos Sabbath ola'n Maesyrhaf—hoff gysegr glân,
Pan oedd ef fel pe yn methu a chael diwedd ar y gân—
Fel pe'n gwel'd y *tragwyddoldeb* draw yn glir dros niwl y glyn,
Ac fel yn ei wyneb yno, iach y canai'r geiriau hyn :—
*"Tragwyddoldeb mawr yw d'enw, ti yn fuan fydd fy lle—
Teithiwr un diwrnod ydwyf—fry mae nghartref yn y ne' ;
Mae'm diwrnod bron a darfod, mae fy haul bron myn'd i lawr,
Mae pob awel yn fy chwythu tua'r tragwyddoldeb mawr.
Disgwyl pethau gwych i ddyfod, croes i hyny maent yn dod ;
Meddwl 'fory daw gorfoledd, 'fory'r tristwch mwya'r erioed ;
Meddwl byw ac eto marw yw'r lleferydd dan fy mron,
Bob yn ronyn mi rof ffarwel—ffarwel lân i'r ddaear hon."

Nefol oedd ei deimlad drwyddo, fel pe boreu gwyn y nef
Yno'n gwawrio yn ei enaid heb yn wybod iddo ef.
Pan yn canu'r emyn nefol yn yr ysbryd lawer gwaith,
Pwy a wyddai fod y *canu* hwnw'n *ganu* ar ben y daith ?
Pwy a wyr nad oedd e'n teimlo yno fod y nef gerllaw ?
"Ac yn dechreu profi eisoes beraroglau'r gwledydd draw."

---

* Mae'n deilwng o sylw iddo fynu canu'r Emyn uchod yn gyflawn drosodd a throsodd, yn eithriadol felly y nos Sabbath olaf y bu byw, y pryd yma'n iach, ond yn marw y boreu ar ol hyny

Ef ni chadd ei hir-gystuddio i alw'i feddwl tua'r nef,
Fel i ddianc tuag adref, digon pur a gwyn oedd ef.
Ef ni fu yn hir ymdeithio'n iselderau angeu du,
Buan yr agorwyd iddo brif-ffordd i'r orphwysfa fry.

Gerddor hoff, 'nawr dedwydd ydyw ;—acw yn yr ardal glaer—
" Ni bydd diwedd, ni bydd diwedd byth ar swn y delyn aur."

Ei gynhebrwng tywysogaidd gofir er mor ddu ei wedd—
Yno, canu pur, nefolaidd, lanwai nefoedd Castellnedd.
Cofir am y cor a'r dyrfa—wylo a chanu oedd y llu,
Hyd y daith i Ynysmardy—tua glan ei feddrod du.

" Daeth yr awr i'm ddianc adref " wnelai lanw'r dref â chân ;
Cymysg yno oedd y dagrau ac emynau Cymru lân.
Yn eu galar canai'r dyrfa—" Beth sydd imi yn y byd ? "
Heb " orthrymder " swn y nefoedd dreiddiai drwy y gân i gyd.
" Er mor chwerw dyfroedd Mara " chwyddai'r enfawr dorf eu llef —
Ond ar " fryniau " claer " Caersalem " gwelent drem goleuni'r nef.
" Yn y dyfroedd mawr a'r tonau " ganent, teimlent hyny 'nawr,
Teimlent na fu " Dyffryn Baca " yn fwy du erioed ei wawr.
Ond llawenydd ddaeth drwy'r hiraeth pan y gwelent mewn boddhad,
Hyfryd " foreu cawn gyfarfod " draw ar aelwyd " Tŷ ein Tad."

Pan yn aros ar ymylau'i " lety llwch " anwylaf ef,
Daeth " Bydd myrdd o ryfeddodau " i ddyrchafu tua'r nef.
Bydd ! " Bydd myrdd o ryfeddodau draw ar doriad boreu wawr,"
Pan yr egyr dorau'r beddau oll i'r Adgyfodiad mawr.

Hoff JOHN ARNOLD, heddwch iddo ; mae'n etifedd nefol hedd ;
Buan y daw boreu'r codi yn ei fri at lwch ei fedd.

GLYN MOAB.

CARDIFF
UWCC LIBRARY
CARDIFF PUBLIC

---

D. L. JONES, ARGRAFFYDD, BRITON FERRY.